# YR ATODLENNI

## ATODLEN 3

## ADDASU DEDDFIADAU PRYNU GORFODOL A IAWNDAL I GREU HAWLIAU NEWYDD

### *Deddfiadau iawndal*

**2.**—(1) Heb ragfarn i baragraff 1 yn gyffredinol, mae Deddf Iawndal Tir 1973(**1**) mewn grym yn ddarostyngedig i'r addasiadau a geir yn is-baragraffau (2) a (3).

(2) Yn adran 44(1) (iawndal am effaith niweidiol), fel y mae'n gymwys i iawndal am effaith niweidiol o dan adran 7 o Ddeddf 1965 fel y'i hamnewidiwyd gan baragraff 4, yn lle'r geiriau—

(a) "land is acquired or taken" rhodder y geiriau "a right over land is purchased"; a

(b) "acquired or taken from him" rhodder y geiriau "over which the right is exercisable".

(3) Yn adran 58(1) (penderfynu ar niwed sylweddol pan fo rhan o dŷ etc. wedi'i fwriadu ar gyfer ei gaffael yn orfodol), fel y mae'n gymwys i benderfyniadau o dan adran 8 o Ddeddf 1965 fel y'i hamnewidiwyd gan baragraff 5—

(a) yn lle'r gair "part" ym mharagraffau (a) a (b), rhodder y geiriau "a right over land consisting";

(b) yn lle'r gair "severance" rhodder y geiriau "right over the whole of the house, building or manufactory or of the house and the park or garden";

(c) yn lle'r geiriau "part proposed" rhodder y geiriau "right proposed"; ac

(ch) yn lle'r geiriau "part is", rhodder y geiriau "right is".

(**1**) 1973 p.26.